Arwain cydweithredu – un ystad gyhoeddus Cymru
Leading collaboration – one public estate Wales

**Croeso i'ch Rhifyn Arbennig ar gyfer Cynhadledd a Gwobrau Ystadau Cymru**

ARGRAFFIAD DEUDDEG

## CYNNWYS


Cyflwyniad y Cadeirydd
**Tudalen 2**

Gwobrau Ystadau Cymru 2025
**Tudalen 3**

Cynhadledd Ystadau Cymru 2025
**Tudalen 6**

Ymgyrch Sero Net Sir Benfro wedi'i bweru gan Ynni Cymunedol
**Tudalen 9**

Adfywio Ynys Môn
**Tudalen 10**

Eiddo Gwag yng Nghymru: llawlyfr
**Tudalen 11**


# Gwobrau Ystadau Cymru 2025

## Cydweithredu yn arwain at lwyddiant yn Abertawe

### CYMDOGAETHAU CYNALIADWY YW ENILLYDD CYFFREDINOL GWOBRAU YSTADAU CYMRU 2025!



**Mae'r prosiect arloesol hwn gan Gyngor Abertawe, Cyfoeth Naturiol Cymru, Urban Foundry ac Ysgol St Helen's yn dangos sut y allwn addasu i newid hinsawdd mewn ardaloedd trefol a gwella cymdogaethau lleol.** **Darllenwch ragor am y prosiect ar dudalen 3.**

# CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

**Rwy'n arbennig o falch o'n deuddegfed rhifyn o gylchlythyr Ystadau Cymru, sy'n ddeunydd darllen hanfodol i bawb sy'n ymwneud ag ystad gyhoeddus Cymru.**



Beverly Owen

**Croeso i rifyn diweddaraf Cylchlythyr Ystadau Cymru, sy'n dathlu llwyddiant enillwyr ein gwobrau ac uchafbwyntiau cynhadledd Ystadau Cymru 2025.**

Chwaraeodd ein partneriaeth â Derek Walker a thîm Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol ran hanfodol, gan ddod ag arbenigedd gwerthfawr a helpodd i wneud y gynhadledd eleni yn un o'n mwyaf llwyddiannus hyd yma.

Wrth i ni agosáu at ddiwedd y Rhaglen Lywodraethu bresennol, dylem gymryd eiliad i edrych yn ôl ar ein taith. Mae hyn yn gyfle i ymfalchïo yn yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd fel Ystadau Cymru.

Ar hyn o bryd, mae tri grŵp Thematig Ystadau Cymru gweithredol yn canolbwyntio ar Ddiogelwch Adeiladau, Cynaliadwyedd Amgylcheddol, ac Asedau Cymunedol, gan dynnu ynghyd aelodau o wahanol sefydliadau ledled Cymru. Mae ein tri grŵp rhanbarthol yn parhau i weithredu, ac rydym yn paratoi at gyhoeddi Adroddiad y Comisiwn Asedau Cymunedol – mae'n gyfnod prysur iawn!

Fe wnaethom weithredu'n gyflym i gyhoeddi canllawiau interim ar Wefru Cerbydau Trydan a Diogelwch Batris Lithiwm i nodi'r arferion gorau o ran eu gosod ac ar ddiogelwch wrth i ni gomisiynu fersiwn fwy cynhwysfawr. At hynny, mae canllaw Ystadau Cymru sy'n canolbwyntio ar ddatgarboneiddio ac addasu i newid hinsawdd ar gyfer y sector cyhoeddus yn cael ei ddatblygu ar y cyd â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi erbyn mis Mawrth 2026.

Mae grant Rhaglen Gydweithredu Cymru ar Asedau (ACPW) bellach wedi'i ddyrannu'n llawn, ar ôl cefnogi pump ar hugain o brosiectau amrywiol ers 2022. O erddi glaw trefol i ffermio tir cyhoeddus, rwy'n falch fel Cadeirydd o'r cynnydd a'r arloesedd cydweithredol ar draws ystad gyhoeddus Cymru.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, mae Ystadau Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi arferion gorau wrth reoli ein hystad gyhoeddus.  Drwy ein gwahanol ffrydiau gwaith a thudalennau gwe Ystadau Cymru, byddwn yn parhau i hyrwyddo dull cydweithredol o reoli asedau ar draws y sector cyhoeddus.

# Gwobrau Ystadau Cymru 2025

## Rydym yn falch o gyhoeddi mai Cymdogaethau Cynaliadwy yn Sandfields, Abertawe yw ein Henillydd Cyffredinol!

**Cyngor Abertawe, Cyfoeth Naturiol Cymru, Urban Foundry, Ysgol St Helen's**

**Dewiswyd y prosiect hwn oherwydd ei ymagwedd integredig at reoli perygl llifogydd, a'r ffordd y mae'n creu mannau gwyrdd, gwella mynediad i ysgolion ac yn hyrwyddo teithio llesol.**

Roedd llifogydd dŵr wyneb a thraffig trwm yn ystod oriau brig yn broblem i'r gymdogaeth, gan roi Ysgol Gynradd St Helen's mewn perygl difrifol. Ymatebodd y Prosiect Cymdogaethau Cynaliadwy trwy greu gofod cymunedol newydd, cyflwyno systemau draenio trefol cynaliadwy (SuDs), a datblygu llwybrau teithio llesol.

**Mae'r isod ymhlith y prif feysydd:**

» **Arloesi trwy ddefnyddio asedau cyhoeddus** – Dyma'r cynllun cyntaf o'i fath i Abertawe a phrif elfennau arloesol y prosiect hwn yw ei natur drawsddisgyblaethol, aml-sefydliadol sy'n gweithio gyda chontractwyr a sawl ffynhonnell ariannol ar briffordd gyhoeddus.

» **Gwella bioamrywiaeth** – Plannu rhywogaethau brodorol neu rywogaethau sydd â gwerth amlwg i fioamrywiaeth, gan ddarparu lloches a bwyd i bryfed a pheillwyr.

» **Gwella cynaliadwyedd amgylcheddol** – Cyflawni egwyddorion Seilwaith Gwyrdd (GI).

» **Sbarduno twf a datblygu gwydnwch economaidd** – Lleihau'r perygl o lifogydd a llygredd gwasgaredig trefol sy'n gwneud Sandfields yn lle gwell i fyw, gweithio a chwarae.

» **Creu gwerth cymdeithasol gan ddefnyddio asedau cyhoeddus** – Trawsnewid stryd bengaead yn ofod cymunedol aml-genhedlaeth gyda seddi, seilwaith a mynediad beicio a lle i chwarae'n anffurfiol gan gynnig gwerth amwynder drwy gydol y flwyddyn.

Roedd gweithio mewn gwir bartneriaeth yn greiddiol i lwyddiant y prosiect, gan feithrin ysbryd cydweithredu a sicrhau bod arbenigeddau ac adnoddau pob sefydliad yn cael eu defnyddio'n effeithiol er budd y gymdogaeth.

**Y Camau Nesaf!**

Mae Penny Gruffydd a Fran Rolfe o Gyngor Abertawe a Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi cymryd rhan mewn ymweliad cyfnewid polisi gyda staff o Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn Fienna i ddysgu rhagor am seilwaith gwyrdd a systemau draenio trefol cynaliadwy. Bydd yr hyn a ddysgwyd yn ystod yr ymweliad yn eu helpu i ddatblygu eu gwaith yn y maes ac i lywio'r gynhadledd hon: **www.greenthecity.co.uk/addasu-i-newid-yn-yr-hinsawdd/**.

# Gwobrau Ystadau Cymru 2025

## Y prosiect a ddaeth yn ail – Gwarchod y Gorffennol, Pweru'r Dyfodol

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru a phartneriaid**



Roedd angen newid y to llechi ganrif oed sy'n diogelu casgliadau amhrisiadwy ar frys ac esblygodd yr hyn a ddechreuodd fel prosiect hanfodol i ailosod y to i ddiogelu casgliadau bregus i fod yn enghraifft genedlaethol flaenllaw o ddatgarboneiddio ar waith.

Ynghyd â diogelu asedau treftadaeth, creodd y fenter fanteision cymdeithasol ac economaidd diriaethol gan gynnwys creu **cyfleoedd hyfforddi gwerthfawr a datblygu sgiliau newydd.**

- Defnyddiwyd 40,000 o lechi Cymreig o Flaenau Ffestiniog i greu to newydd i'r llyfrgell, gan adfer dyluniad llechi ar hap gwreiddiol yr adeilad gan ei diogelu at y ganrif nesaf.
- Gosodwyd 797 o baneli ffotofoltaidd ar draws y to, gan alluogi'r safle i gynhyrchu traean o'i anghenion ynni a lleihau ei ôl troed carbon yn sylweddol. **Mae'r paneli wedi cynhyrchu 91,000MWh o ynni glân, gan arbed 70,000kg o $CO_2$ – sy'n cyfateb i blannu dros 1,000 o goed.**
- Mae'r llyfrgell wedi creu canolfan gwefru cerbydau trydan gyda 40 o wefrwyr cyflym ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, mae'r safle yn cefnogi trigolion a busnesau lleol trwy ddarparu lle hanfodol i deithwyr rhwng y gogledd a'r de i gael saib.
- Roedd yr holl brif gontractwyr a oedd yn rhan o'r prosiect wedi'u lleoli yng Ngheredigion. Ynghyd â chynnal cyflogaeth leol, mae'r dull hwn hefyd yn helpu i adeiladu arbenigedd rhanbarthol, yn enwedig ym meysydd adeiladu cynaliadwy a gosod ynni adnewyddadwy.

Mae'r fenter yn dangos sut y gall ystadau treftadaeth fod yn ysgogwyr pwerus o ddatgarboneiddio, cefnogaeth gymunedol, a newid cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.

# Yn olaf, mae ein Gwobr Canmoliaeth yn mynd i...

## Ailddatblygu Theatr Clwyd

**Cyngor Sir y Fflint, Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd, Cyngor Celfyddydau Cymru, a Llywodraeth Cymru.**




Mae ailddatblygu'r adeilad a godwyd yn 1976, sydd bellach yn un o asedau Cyngor Sir y Fflint, wedi dangos ymrwymiad cryf gan bartneriaid a'r gymuned. Mae'r prosiect eisoes wedi diogelu swyddi ar gyfer 140 o aelodau o staff, 100 o weithwyr achlysurol, a 400 o weithwyr llawrydd bob blwyddyn gan greu 80 o swyddi parhaol. Mae dyluniad newydd y theatr hefyd yn blaenoriaethu cynaliadwyedd gyda system pwmp gwres o'r aer ddi-nwy. Roedd meysydd eraill yn cynnwys:

- **Uwchsgilio a Datblygu'r Gweithlu:** Cynnig rhaglenni dysgu wedi'u teilwra sy'n mynd i'r afael â'r bylchau yn sgiliau'r gweithlu ac sy'n croesawu arferion cynaliadwy, gyda chefnogaeth cyfleusterau blaengar.
- **Ymgysylltu â'r Gymuned a Diogelu Treftadaeth:** Arddangos treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol Gogledd Cymru, integreiddio'r Gymraeg i ddysgu, a chynnig profiadau arloesol i dwristiaid.
- **Cynaliadwyedd a Gwydnwch:** Ymgorffori cynaliadwyedd yn y cwricwlwm a gweithrediadau, gan baratoi'r gweithlu ar gyfer sector blaengar sy'n newid yn barhaus.
- **Ecosystem Gydweithredol:** Dod â rhanddeiliaid ynghyd i ganfod datrysiadau ac annog twf.

Mae trawsnewid Theatr Clwyd yn fuddsoddiad hanfodol yn nyfodol yr adeilad a thirwedd ddiwylliannol y rhanbarth. Trwy fynd i'r afael â materion seilwaith brys ac ymgorffori cynaliadwyedd trwy gydol y broses ailddatblygu, mae'r prosiect nid yn unig wedi diogelu swyddi a gwella gwydnwch gweithredol ond mae hefyd wedi creu mannau newydd ysbrydoledig ar gyfer creadigrwydd, ymgysylltu â'r gymuned, a llesiant.

Mae'r theatr wedi'i hadnewyddu yn barod i gyfoethogi profiadau cynulleidfaoedd a chefnogi'r celfyddydau am flynyddoedd lawer i ddod – mae hyn oll yn dystiolaeth o weledigaeth gydweithredol ac ymrwymiad parhaol.

# CYDNABYDDIAETH ARBENNIG I TAI AR Y CYD – CARTREFI GYDA'N GILYDD

## Newydd ar gyfer 2025 ac wedi'i gyflwyno mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

**Mae Tai ar y Cyd yn fenter arloesol sy'n dwyn ynghyd 23 o landlordiaid cymdeithasol ledled Cymru i fynd i'r afael â'r angen cynyddol am dai cynaliadwy a fforddiadwy.**

Trwy ddatblygu llyfr patrymau arloesol, mae'r bartneriaeth wedi gosod safonau newydd ar gyfer cartrefi pren di-garbon a gynhyrchwyd oddi ar y safle.

Ynghyd â mynd i'r adael â phrinder tai brys, mae'r model cydweithredol hwn hefyd yn rhoi cyfrifoldeb amgylcheddol wrth ei galon, gan gynnig arweiniad i sefydliadau sy'n aelodau wrth ddarparu cartrefi ynni-effeithlon sy'n helpu i leihau allyriadau carbon.

Yn ganolog i'r prosiect mae ymrwymiad i gryfhau cadwyni cyflenwi lleol yng Nghymru, gyda ffocws penodol ar ddefnyddio pren Cymreig i gefnogi'r economi ranbarthol a chynnal safonau amgylcheddol cadarn. Trwy safoni dulliau dylunio ac adeiladu, mae Tai ar y Cyd yn galluogi partneriaid i gydweithio i ymateb i'r galw a gwneud y gorau o strategaethau cyflawni, gan wneud byw'n gynaliadwy yn fwy hygyrch a fforddiadwy yn y pen draw.

Mae'r fenter yn dyst i bŵer cydweithredu ac arloesedd wrth lunio dyfodol gwyrddach a mwy gwydn i gymunedau ledled Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i :
**taiarycyd.cymru/cy/y-prosiect/**

# CYNHADLEDD YSTADAU CYMRU 2025: HYRWYDDO CYDWEITHREDU AC ARLOESI YN UN YSTAD GYHOEDDUS CYMRU

**Mae ystad gyhoeddus Cymru yn cael ei thrawsnewid yn gyflym, fel y dangoswyd yng Nghynhadledd a Gwobrau Ystadau Cymru 2025. Mae'r digwyddiad yn dathlu degawd o gynnydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gydnabod rheolwyr ystadau am yrru newid cynaliadwy – optimeiddio adnoddau, mabwysiadu arferion ecogyfeillgar, a diogelu asedau ar gyfer y dyfodol. Mae rhaglenni fel Rhaglen Gydweithredu ar Asedau a Thrawsnewid Trefi yn rhoi bywyd newydd i gymunedau ac yn hyrwyddo mannau gwyrddach, mwy cynhwysol trwy greu lleoedd effeithiol.**

Ysbrydolodd y prif siaradwyr, gan gynnwys y Comisiynydd Derek Walker a Dr Netherwood, gynrychiolwyr i weithredu ar addasu i'r hinsawdd ac adfer natur. Roedd y gynhadledd yn gyfle i arddangos mentrau solar cymunedol Egni Co-op a datrysiadau creadigol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer adeiladau problematig. Mae'r cynlluniau adfywio cydweithredol hyn yn enghreifftiau pwerus o greu lleoedd, gan helpu Cymru i fynd i'r afael â heriau lleol a siapio cymunedau cynaliadwy, ffyniannus.

Roedd y neges o'r gynhadledd yn glir: mae arloesi a chydweithredu yn allweddol i ddyfodol gwydn. Drwy gryfhau partneriaethau a hyrwyddo datrysiadau cyfannol sy'n seiliedig ar leoedd, mae Cymru'n ymrwymedig i adeiladu cymunedau ffyniannus, cynaliadwy sydd yma i aros.

# HYRWYDDO NEWID CYNALIADWY YNG NGHYMRU

## Derek Walker yn ystyried y llwybr i Gymru wyrddach, decach

**Roedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn brif siaradwr yn y digwyddiad eleni, gan dynnu sylw at y bartneriaeth sy'n tyfu rhwng tîm y Comisiynydd ac Ystadau Cymru i hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy o ystad gyhoeddus y wlad. Pwysleisiodd yr anerchiad rôl hanfodol rheolwyr ystadau wrth hyrwyddo nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.**

Nododd y Comisiynydd yr heriau brys sy'n wynebu Cymru, megis newid hinsawdd, galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus, a lleihad yn ymddiriedaeth y cyhoedd. Nodwyd bod cost diffyg gweithredu yn cynyddu, gan fygwth adnoddau ariannol a llesiant pobl fel ei gilydd. Rhaid i gyrraedd targedau hinsawdd a natur Cymru fod yn uchelgais ganolog, galwodd am ragor o adnoddau a chefnogaeth, yn enwedig i'r rhai sy'n rheoli ystadau cyhoeddus.

Anogwyd mynychwyr y gynhadledd i arwain ar gynaliadwyedd trwy ganolbwyntio ar dri maes: (1) datgarboneiddio; (2) gwytnwch hinsawdd, ac (3) adferiad natur / bioamrywiaeth yn eu portffolios. Tynnodd y Comisiynydd sylw at bwysigrwydd datrysiadau sy'n cyflawni nifer o nodau, gan gynnwys datgarboneiddio a chreu swyddi, ac anogodd gynnydd cynt ar reoli risg hinsawdd, seilwaith gwyrdd ac adferiad natur. Pwysleisiodd fod yn rhaid iddynt fod yn flaenoriaeth graidd gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn adeiladu ar argymhellion yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 (t. 45).

I gloi, galwodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol am gydweithredu parhaus, rhannu arferion gorau, ac ymdrechion unedig i oresgyn rhwystrau. Anogwyd mynychwyr i ddefnyddio adnoddau'r swyddfa ac i ddathlu cyflawniadau ar y cyd, gyda phwyslais ar ailymrwymo i lesiant Cymru ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Bydd adnodd ar adeiladu gwytnwch hinsawdd a natur i reoli tir, sy'n seiliedig ar y drafodaeth yn y gynhadledd, yn cael ei gyhoeddi gan y Comisiynydd ym mis Chwefror 2026.

**Dewch o hyd i ddiweddariadau diweddaraf y Comisiwn yn eu cylchlythyr.**

**Ein Cylchlythyrau – Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
**www.futuregenerations.wales/cym/resources/our-newsletters/**



# TIR, ARWEINYDDIAETH A GWADDOL: YMGORFFORI GWYDNWCH YR HINSAWDD A NATUR WRTH REOLI TIR



**Yn nhymor yr hydref 2025, comisiynwyd Dr Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i siarad yng nghynhadledd Ystadau Cymru gydag anerchiad o dan y teitl Tir, Arweinyddiaeth, ac Etifeddiaeth: Ymgorffori Gwytnwch oyr Hinsawdd a Natur wrth Reoli Tir. Mae hyn bellach wedi'i ddatblygu i fod yn ddarn gwyntyllu estynedig, i helpu i ysgogi deialog rhwng OFGC a rheolwyr asedau ac eiddo ledled Cymru. Mae'r darn gwyntyllu yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:**

- rheoli amrywiaeth asedau tir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- mabwysiadu dulliau blaengar o reoli tir
- sicrhau bod gwydnwch hinsawdd yn rhan o systemau a phrosesau presennol a ddefnyddir gan reolwyr tir
- cyflawni canlyniadau carbon tir trwy reoli asedau
- mynd ar drywydd cyfleoedd ar gyfer rheoli maethynnau trwy ddatblygu
- gwella adferiad natur drwy reoli tir, ffermio a datblygu gwledig
- mabwysiadu dull sefydliad cyfan i gyflawni gwydnwch hinsawdd a chanlyniadau adfer natur.

Mae'r gwaith yn tynnu ar yrfa 13 mlynedd Alan yn y sector cyhoeddus a 17 mlynedd fel ymgynghorydd sy'n cefnogi cyrff cyhoeddus ac eraill ar ddatblygu cynaliadwy, risgiau hinsawdd, bioamrywiaeth a datgarboneiddio ledled Cymru.

Barn yr awdur yw y gellir gwneud cynnydd o ystyried yr arbenigedd sydd ar gael yn sector cyhoeddus Cymru ac mewn sefydliadau partner, er gwaethaf cyfyngiadau ariannu. Mae Alan yn tynnu sylw at bwysigrwydd datblygu dulliau strategol a sefydliadol i gefnogi hyn ar gyfer y proffesiwn rheoli asedau – gan alluogi gwell cysylltiad rhwng arbenigwyr, a thrwy hynny, gynnig 'caniatâd' i reolwyr asedau fabwysiadu gwahanol lensys ar gyfer cynllunio a chyflawni rheoli asedau.

Mae'r papur ar gael ar ffurf dogfen PDF o naill ai: Dr Alan Netherwood, Dyfodol Cynaliadwy Netherwood **alan.netherwood@gmail.com** neu Helen Nelson, Cyfarwyddwr – Cynllunio Strategol a Hinsawdd a Natur, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol **helen.nelson@futuregenerations.wales**

NETHERWOOD SUSTAINABLE FUTURES
Sustainability Governance Policy Practice

**Commissioned by:**

Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru — **Future Generations** Commissioner for Wales

# YMGYRCH SERO NET SIR BENFRO WEDI'I BWERU GAN YNNI CYMUNEDOL

## Prosiect solar arloesol yn arwain at fanteision addysgol ac amgylcheddol ar draws ysgolion a chanolfannau hamdden y sir

**Mae Sir Benfro yn arwain y ffordd ar gyfer dyfodol gwyrddach diolch i brosiect Cydweithredu Ynni Cymunedol uchelgeisiol, sy'n trawsnewid adeiladau cyhoeddus yn bwerdai ecogyfeillgar gan ennyn diddordeb disgyblion ac arbed arian i'r sir.**

Tynnwyd sylw at y prosiect arloesol hwn fel un o'r sesiynau allweddol yng nghynhadledd Ystadau Cymru, gan ddenu sylw sylweddol gan fynychwyr a sbarduno trafodaethau bywiog am ddyfodol ynni cynaliadwy yn y sectorau cyhoeddus.

» Mae'r fenter bellach yn ei hail gam, ar ôl gosod systemau solar ffotofoltaidd (PV) eisoes ar bymtheg o adeiladau Cyngor Sir Penfro.

» Mae bron i 1MW o ynni glân wedi'i osod hyd yn hyn, gyda chynlluniau i ddyblu'r capasiti i 2MW ar draws ysgolion a chanolfannau hamdden.

» Ymrwymodd y Cyngor i Gytundeb Prynu Pŵer gydag Egni Co op ar gyfer yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchwyd gan y paneli solar ar ben toeau. Cafodd y broses gaffael gysylltiedig ei chynnal drwy blatfform GwerthwchdrosGymru, a hynny'n unol â gofynion arferol y sector cyhoeddus o ran tryloywder, cystadleuaeth a gwerth am arian.

» Mae'r prosiect hefyd yn ymgysylltu ag ysgolion, ac mae'r prosiect Energy Warriors yn codi ymwybyddiaeth mewn ystafelloedd dosbarth, gan roi disgyblion wrth galon trafodaethau ynni trwy weithdai ar ddefnydd ynni, deunyddiau naturiol, gwastraff bwyd, a ffasiwn cyflym. Mae cydweithredu â phrifysgolion lleol a phartneriaid diwydiant yn sicrhau bod gan holl ysgolion Cyngor Sir Penfro fynediad am ddim i'r profiadau addysgol hyn, sydd werth £14,000 y flwyddyn.

Wrth gwrs, fel gyda phob cynllun arloesol, roedd yna heriau. Mae problemau gyda chysylltiadau grid a rhywfaint o wrthwynebiad i newid wedi bod yn heriol i dîm y prosiect. Fodd bynnag, mae cydweithredu cryf gyda phartneriaid angerddol nid er elw  wedi bod yn allweddol i oresgyn y rhwystrau hyn ynghyd â ffocws clir ar sut y bydd pawb yn elwa ar y prosiect a chyfathrebu effeithiol. Mae ymgysylltu ag ysgolion yn gynnar a chynnal momentwm wedi bod yn hanfodol.

Wrth i Sir Benfro barhau â'i thaith tuag at sector cyhoeddus sero net, mae'r cydweithrediad rhwng awdurdod lleol ac Ynni Cymunedol hwn yn enghraifft ddisglair o sut y gall arloesedd, partneriaeth ac addysg ddarparu manteision parhaol i bobl a'r blaned fel ei gilydd.





# ADFYWIO YNYS MÔN: RHOI BYWYD NEWYDD I GANOL TREFI

## Gweledigaeth Gydweithredol ar gyfer Cymunedau Cynaliadwy

**Rhannodd Dewi G Lloyd, Rheolwr Adfywio Cyngor Sir Ynys Môn, ddiweddariad ysbrydoledig ar daith adfywio uchelgeisiol yr ynys yn y gynhadledd. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys ystod eang o brosiectau a chynlluniau i adfywio prif drefi yr Ynys ac adeiladu dyfodol cynaliadwy a ffyniannus i'r ardal.**

Mae Cynllun newydd Cyngor Ynys Môn a'r Strategaeth gysylltiedig ar gyfer Gwella Canol Trefi Ynys Môn yn llywio'r trawsnewidiad hwn, gyda ffocws cryf ar ddatblygu gweledigaeth glir a sicrhau bod gwelliannau'n strategol ac yn effeithiol. Maent hefyd yn anelu at sicrhau bod cymunedau a busnesau lleol yn cael gwybod am y datblygiadau hyn a'u bod nhw'n rhan o'r broses o lywio cynlluniau a mentrau sydd wedi'u teilwra i anghenion unigryw pob tref.

» Mae'r Cyngor wedi trawsnewid nifer o eiddo trefol gwag ac adfeiliedig i ddarparu canolfannau cymunedol neu dai cymdeithasol, gan gynnwys Neuadd y Farchnad sy'n adeilad restredig hanesyddol ac adeiladau Plas Alltran yng Nghaergybi, a safle'r clwb cymdeithasol adfeiliedig ym Miwmares.

» Mae prosiectau adfywio pwysig dan arweiniad partneriaid cyflenwi lleol wedi cael eu cefnogi, gan gynnwys Sinema a Chanolan Chwarae'r Empire yng Nghaergybi, Canolfan Glanhwfa yn Llangefni, a'r cynllun adnewyddu peilot arloesol o dan arweiniad Cymunedau Ymlaen Môn i wella dros 100 o adeiladau'r stryd fawr ar draws tri chanol tref.

» Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi adeiladu dros 30 o unedau busnes modern newydd yng Nghaergybi a Llangefni ac mae unedau pellach ar y gweill yn Amlwch, yn bennaf ar safleoedd tir llwyd, gan greu cyfleoedd newydd i fentrau lleol a thwf economaidd.

» Mae arolygon a chynlluniau ar waith i ystyried cyflwr ac effeithlonrwydd ynni ystad bresennol y Cyngor o wahanol unedau busnes ac unedau diwydiannol i sicrhau eu haddasrwydd a'u cynaliadwyedd yn y tymor hir.

Mae'r prosiectau hyn wedi cael eu hariannu trwy nifer o wahanol ffynonellau cyllido gan gynnwys grantiau amrywiol, gyda rhai yn cynnwys cyd-fentrau neu fenthyciadau arloesol. Mae'r broses adfywio yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau gwir gynnydd hirdymor sy'n cyd-fynd â chynlluniau strategol.

Yn ganolog i'r holl gyflawniadau, hyn mae'r ysbryd o gydweithredu. Mae llwyddiant yn dibynnu ar weithio'n effeithiol rhwng sefydliadau cyhoeddus, busnesau preifat, a'r trydydd sector, gan gyfuno sgiliau a syniadau i sbarduno datrysiadau arloesol y mae modd eu cyflawni yn ymarferol. Gyda gweledigaeth glir, ymgysylltiad eang, ac ymrwymiad ar y cyd i gyflawni newid cadarnhaol, mae ymdrechion adfywio Ynys Môn yn fwy na chynlluniau ar bapur yn unig – maent yn fudiad i greu lleoedd lle gall pawb ymfalchïo ynddynt.

# CYHOEDDI LLAWLYFR NEWYDD AR EIDDO GWAG

**Ar 5 Rhagfyr 2025, datganodd Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai fod y Llawlyfr ar Eiddo Gwag yng Nghymru wedi'i gyhoeddi. Mae'r canllaw cynhwysfawr hwn wedi'i gynllunio i helpu awdurdodau lleol, perchnogion eiddo, grwpiau cymunedol, a phartneriaid i fynd i'r afael â'r her o eiddo preswyl a masnachol gwag ledled Cymru.**

Mae'r llawlyfr yn dwyn ynghyd **arferion gorau, astudiaethau achos yn y byd go iawn**, a **chymorth ariannol** i gefnogi ymdrechion i helpu:

» **Adfywio Cymunedau –** Troi eiddo gwag yn fannau bywiog sydd o fudd i ardaloedd lleol.

» **Diwallu Anghenion Tai –** Manteisio i'r eithaf ar adeiladau presennol i ddarparu cartrefi y mae mawr eu hangen.

» **Ysgogi Cydweithredu –** Annog cydweithio rhwng cynghorau, perchnogion a sefydliadau cymunedol.

» **Datgloi Cyfleoedd Cyllido –** Cyngor ymarferol ar grantiau, benthyciadau, a mecanweithiau ariannol i gefnogi prosiectau.

Mae'r adnodd hwn yn gam allweddol tuag at leihau nifer yr eiddo gwag a sicrhau eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at economïau a chymdogaethau lleol.




**Gweithredwch:** Rhannwch y llawlyfr hwn yn eang yn eich sefydliad a'ch rhwydweithiau, a dechreuwch ei ddefnyddio heddiw er mwyn defnyddio eiddo gwag mewn ffyrdd buddiol eto.

**Darllenwch y llawlyfr yma:**
Eiddo Gwag yng Nghymru
**www.llyw.cymru/eiddo-gwag-yng-nghymru-llawlyfr**

# GALWAD AM ASTUDIAETH ACHOS!

Mae tîm Ystadau Cymru wedi bod yn cydweithio â phartneriaid i greu casgliad o astudiaethau achos ar gyfer ein gwefan. Rydym eisoes wedi cynnwys rhai prosiectau gwych ar bynciau fel rheolaeth asedau cydweithredol, trosglwyddo asedau cymunedol a datgarboneiddio, ond rydym yn chwilio am ragor o enghreifftiau.

Os oes gennych brosiect yr hoffech ei rannu, cysylltwch â ni yn **YstadauCymru@llyw.cymru** neu ewch i **www.llyw.cymru/ystadau-cymru**.